Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
58/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
05/09/2016

# Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Tonnau 10, 11 a 12

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-7428-4

**Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau:**
Tonnau 10, 11 a 12

**Rebecca Cox**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

**Gwnaed y gwaith casglu data gan Beaufort Research Ltd.**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Rebecca Cox
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: organ.donation@wales.gsi.gov.uk

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau a ffigurau 2

**Canfyddiadau allweddol 3**

**1. Cyflwyniad 7**

1.1 Cefndir 7

1.2 Gwybodaeth am yr adroddiad 7

1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol 8

**2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau 9**

2.1 Ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau 9

2.2 Dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau 11

2.3 Ymwybyddiaeth gymelledig o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau 12

**3. Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau 14**

**4. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu 15**

**5. Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau 17**

5.1 Ymddygiad ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno 17

5.2 Trafod y penderfyniad hwnnw gydag aelod o'r teulu 18

**6. Yr ymgyrch 'Nawr yw'r Amser i Ddewis' 20**

**Atodiad A: Methodoleg 21**

**Atodiad B: Holiadur 26**

## Rhestr o dablau a ffigurau

### Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl A.1 | Diffinio rhanbarthau | 23 |
| Tabl A.2 | Diffinio grwpiau cymdeithasol | 24 |
| Tabl A.3 | Niferoedd yr is-samplau ar gyfer rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol | 25 |


### Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 2.1 | A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system gyfredol ar gyfer rhoi organau? | 9 |
| Ffigur 2.2 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth | 10 |
| Ffigur 2.3 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran | 11 |
| Ffigur 2.4 | Cyn heddiw, a ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn? | 12 |
| Ffigur 2.5 | Wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran | 13 |
| Ffigur 4.1 | A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw? | 15 |
| Ffigur 4.2 | Wedi trafod ag aelod o'r teulu ddymuniadau o ran rhoi organau yn ôl oedran | 16 |
| Ffigur 5.1 | Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud? | 18 |
| Ffigur 5.2 | A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu y penderfyniad hwnnw o ran rhoi organau ar ôl i chi farw? | 19 |
| Ffigur 6.1 | Ymwybyddiaeth o hysbysebion neu wybodaeth am yr ymgyrch ‘Nawr yw'r Amser i Ddewis’ yn ôl oedran | 20 |

## Canfyddiadau allweddol

### Cefndir

- Cyflwynodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015, system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau a meinwe gan bobl farw yng Nghymru.

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n galluogi agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau yng Nghymru i gael eu monitro. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch rhoi organau yn Arolygon Omnibws Cymru ym mis Tachwedd 2015 (ton 10), mis Mawrth 2016 (ton 11) a mis Mehefin 2016 (ton 12), a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.

- Roedd ton 10 o'r arolwg yn canolbwyntio ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith, ac roedd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol i fesur ymwybyddiaeth a chof o ddeunydd cyhoeddusrwydd yr ymgyrch. Roedd tonnau 11 a 12 yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, yn ogystal ag agweddau ac ymddygiad.

- Lle bo hynny'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â thonnau blaenorol o'r arolwg a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 (ton 1) a mis Medi 2015 (ton 9).

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fyddai'n digwydd i'r system gyfredol o roi organau. Yn nhon 10, dywedodd tua thri chwarter (74 y cant) yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau. Cynyddodd y ffigur hwn i 82 y cant yn nhon 11, ac yna dychwelodd i tua thri chwarter (76 y cant) yn nhon 12.

- Yn nhon 11, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran ymwybyddiaeth o newidiadau yn ôl rhyw; roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw ar gyfer tonnau 10 a 12, gyda'r ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith dynion.

- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn nhonnau 10, 11 a 12 yn ôl rhanbarth, oedran a grŵp cymdeithasol, gyda'r ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:

    - Ymatebwyr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Gorllewin De Cymru a'r Cymoedd
    - Pobl 16 i 34 oed
    - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

- Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ers y man cychwyn, gyda'r grwpiau oedran iau a'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

- Yn nhonnau 10, 11 a 12, gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau y cwestiwn penagored, ‘A allwch ddweud wrthyf sut yr ydych yn meddwl y bydd y system yn newid?’. Dywedodd bron naw o bob deg (86 y cant yn nhon 10, 89 y cant yn nhon 11, ac 88 y cant yn nhon 12) y byddai'n newid i system optio allan neu system o ganiatâd tybiedig.

**Ymwybyddiaeth gymelledig o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau**

- Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i bob ymatebydd, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol. Yn nhon 10, dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Cynyddodd hyn i 84 y cant yn nhon 11, ac i 83 y cant yn nhon 12.

- Yn nhonnau 10 ac 11, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw yn nhon 12, gyda chyfran y rheini a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn tueddu i fod yn is ymhlith dynion.

- Yn nhonnau 10 ac 11, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn is yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru, ac yng Ngorllewin De Cymru.

- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ar gyfer tonnau 10, 11 a 12, gyda'r ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:
    - Pobl 16 i 34 oed; ac
    - Ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol C2DE.

- Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth gymelledig yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ers y man cychwyn, gyda'r grwpiau oedran iau a'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

**Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau**

- Yn nhonnau 11 a 12, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?'

- Yn nhon 11, roedd tri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) yn cytuno petai unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn; roedd un mewn deg (10 y cant) yn anghytuno â'r datganiad hwn, ac nid oedd 15 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, neu nid oeddent yn gwybod. Yn nhon 11, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol, gyda chyfran y rheini a oedd yn cytuno â'r datganiad yn is ymhlith ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol C2DE.

- Yn nhon 12, gostyngodd cyfran y rheini a oedd yn cytuno â'r datganiad i tua dau o bob tri (67 y cant). Roedd 17 y cant o'r bobl yn anghytuno, ac nid oedd 17 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, neu nid oeddent yn gwybod. Yn nhon 12, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, gyda chyfran y rheini a oedd yn cytuno â'r gosodiad yn is ymhlith yr ymatebwyr o'r Cymoedd.

**Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl ichi farw?'. Roedd y gyfran wedi aros ar tua phedwar o bob deg trwy gydol pob un o'r tonnau blaenorol. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu yn 47 y cant yn nhon 10, 48 y cant yn nhon 11, ac wedi aros yn 48 y cant yn nhon 12.

- Yn nhonnau 10, 11 a 12, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'u teulu yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:

    - Pobl 16 i 34 oed;
    - Dynion; ac
    - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

- Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran trafod dymuniadau yn ôl rhyw, gyda dynion yn llai tebygol o drafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu. Bu hefyd wahaniaethau arwyddocaol ar draws y mwyafrif o'r tonnau yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol, gyda'r grwpiau oedran iau, a'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai tebygol o drafod eu dymuniadau.

**Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau**

- Yn nhonnau 11 a 12, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth yr oeddent wedi'i wneud ers i'r system feddal newydd o optio allan o roi organau gael ei chyflwyno:

    - Roedd 80 y cant yn nhon 11 a 72 y cant yn nhon 12 wedi **optio i mewn neu heb gymryd unrhyw gamau**;
    - Roedd 6 y cant yn nhon 11 a 5 y cant yn nhon 12 wedi **optio allan**; a
    - Dywedodd 14 y cant yn nhon 11 a 23 y cant yn nhon 12 **nad oeddent yn gwybod, neu nad oeddent wedi meddwl am y peth eto.**

**Trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer optio i mewn, neu nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau, a'r rhai a oedd wedi optio allan 'Ydych chi wedi trafod y penderfyniad hwnnw gydag aelod o'ch teulu?'.

- Yn nhon 11 a thon 12, roedd tua chwech o bob deg (58 y cant yn nhon 11; 62 y cant yn nhon 12) wedi trafod y penderfyniad hwn ag aelod o'r teulu, ac roedd bron 4 o bob deg (42 y cant yn nhon 11; 38 y cant yn nhon 12) heb wneud hynny.

- Yn nhon 11, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhyw, grŵp cymdeithasol ac oedran, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu yn tueddu i fod yn is ymhlith y canlynol:

    - Ymatebwyr o'r Cymoedd
    - Dynion
    - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE; a

    - Phobl 16 i 34 oed.

- Yn nhon 12, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw ac oedran yn unig.

**Yr ymgyrch 'Nawr yw'r Amser i Ddewis'**

- Yn nhon 10, gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, 'A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebion neu wybodaeth am y gyfraith newydd ar gyfer rhoi organau yng Nghymru?'. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld neu glywed yr hysbysebion 'Nawr yw'r Amser i Ddewis' tua 56 y cant.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Roedd y Ddeddf, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015, yn cyflwyno system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau a meinwe gan bobl farw yng Nghymru.

Ymgymerodd Llywodraeth Cymru ag ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod i rym, er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu, ac o'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae'n ofynnol cael gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraith rhoi organau, a'u hagweddau at newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Mae data'n cael eu casglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016.

## 1.2 Gwybodaeth am yr adroddiad

Yn nhon 10, gofynnwyd cwestiynau'n ymwneud â lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ran rhoi organau a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru, gan ganolbwyntio hefyd ar ymwybyddiaeth o'r ymgyrch 'Nawr yw'r Amser i Ddewis'.

Roedd tonnau 11 a 12 o'r arolwg yn canolbwyntio ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith, ond gyda ffocws cryfach ar agweddau ac ymddygiad.

Cynhaliwyd gwaith maes yr arolwg ar gyfer pob ton fel y dangosir isod:

- Cynhaliwyd ton 10 (1,000 o ymatebwyr) rhwng 16 a 29 Tachwedd 2015
- Cynhaliwyd ton 11 (1,007 o ymatebwyr) rhwng 29 Chwefror ac 13 Mawrth 2016
- Cynhaliwyd ton 12 (1,011 o ymatebwyr) rhwng 6 ac 19 Mehefin 2016.

Cynhaliwyd rhai cyfweliadau ym mhob ton ar ôl y dyddiadau hyn. Mae'r arolwg wedi'i gynllunio i gynrychioli'r boblogaeth sy'n preswylio yng Nghymru ac sy'n 16 oed a throsodd.

Mae'r adroddiad hwn yn gynrychioliad ffeithiol o'r canlyniadau, ac mae'n cyflwyno canfyddiadau am agweddau'r cyhoedd at y system rhoi organau, ynghyd â'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth ohoni – nid yw'n archwilio cysylltiadau achosol. Lle bo hynny'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â thonnau blaenorol o'r arolwg, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Medi 2015[1]. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cael ei

[1] Mae'r adroddiad ar gael yma: http://llyw.cymru/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy

ddefnyddio i lywio sut y caiff y gwaith o gyfathrebu ei dargedu ymysg grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

### 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Yn rhan o'r dadansoddiad, cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol o'r data er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau a llywio'r ymgyrch gyfathrebu. Pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn wahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu perthynas ddilys yn y boblogaeth[2].

Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r holiadur llawn yn atodedig yn Atodiad B.

---

[2] Pan gaiff data arolwg eu profi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gafwyd yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfraneddol, ni ellir, mewn gwirionedd, sefydlu arwyddocâd ystadegol dilys. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar lefel hyder o 95 y cant.


## 2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

### 2.1 Ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system gyfredol o roi organau.

Yn nhon 10, dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr (74 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau. Yn nhon 11, cynyddodd hyn i 82, gan ddychwelyd wedyn i tua thri chwarter (76 y cant) yn nhon 12. (Ffigur 2.1).

**Ffigur 2.1: A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system gyfredol ar gyfer rhoi organau?**





Man cychwyn: 1,006 (T1 Mehefin 2012); 1,015 (T2 Mehefin 2013); 1,022 (T3 Tachwedd 2013); 1,029 (T4 Mehefin 2014); 1,002 (T5 Medi 2014); 1,003 (T6 Tachwedd 2014); 1,022 (T7 Mawrth 2015); 1,018 (T8 Mehefin 2015); 1,008 (T9 Medi 2015); 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016).

(a) Yn nhonnau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system gyfredol o roi organau?'

Yn nhonnau 10, 11 a 12, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau. Fel y mae Ffigur 2.2 yn ei ddangos, yn nhon 10 roedd yr ymwybyddiaeth yn amrywio o tua dau ymatebydd o bob tri (67 y cant) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, i wyth o bob deg ym Mae Abertawe (80 y cant) ac yn y Cymoedd (82 y cant). Yn nhon 11, cynyddodd yr ymwybyddiaeth rhwng tri ac 20 pwynt canran ym mhob ardal ac eithrio Bae Abertawe, lle gostyngodd ymwybyddiaeth

bedwar pwynt canran. Yn nhon 12, gostyngodd ymwybyddiaeth ym mhob rhanbarth rhwng tri ac 16 pwynt canran.

**Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth**





Man cychwyn: 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016).

Yn nhonnau 10, 11 a 12, roedd hefyd wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran o ran ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau. Fel y mae Ffigur 2.3 yn ei ddangos, ar draws tonnau 10, 11 a 12, roedd rhwng 62 a 68 y cant o'r ymatebwyr dan 35 oed yn ymwybodol o unrhyw newidiadau. Roedd hyn yn cymharu â rhwng 78 ac 87 y cant o'r ymatebwyr 35 i 54 oed a'r rheini a oedd yn 55 oed a throsodd.

Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl oedran ers y man cychwyn, gyda'r grwpiau oedran iau yn llai ymwybodol o'r newidiadau yn y gyfraith.

**Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran**




Man cychwyn: 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016).

Roedd hefyd wahaniaeth arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol ar gyfer tonnau 10, 11 a 12. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn ymwybodol o'r newidiadau (81 y cant yn nhon 10; 88 y cant yn nhon 11; 84 y cant yn nhon 12) o gymharu ag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (70 y cant yn nhon 10; 77 y cant yn nhon 11; 70 y cant yn nhon 12).

Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl grŵp cymdeithasol ers y man cychwyn, gyda'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

Yn nhonnau 10 a 12, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw o ran ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau. Roedd cyfran uwch o fenywod yn ymwybodol o'r newidiadau (77 y cant yn nhon 10; 79 y cant yn nhon 12) o gymharu â gwrywod (71 y cant yn nhon 10; 72 y cant yn nhon 12). Yn nhon 11 nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw.

## 2.2 Dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau y cwestiwn penagored ‘A allwch ddweud wrthyf sut yr ydych yn meddwl y bydd y system yn newid?’.


Yn nhon 10, dywedodd 86 y cant y byddai'n newid i system optio allan neu system o ganiatâd tybiedig. Arhosodd y ffigur yn weddol gyson ar gyfer tonnau 11 a 12 (89 ac 88 y cant yn ôl eu trefn). Yn nhon 10, dywedodd bron un ymatebydd o bob deg nad oeddent yn gwybod (8 y cant). Disgynnodd hyn i 5 y cant o'r ymatebwyr yn nhonnau 11 a 12.

## 2.3 Ymwybyddiaeth gymelledig o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i bob ymatebydd, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol.

Fel y mae Ffigur 2.4 yn ei ddangos, yn nhon 10 dywedodd tua thri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Yn nhon 11 a 12, cynyddodd hyn i 84 y cant ac 83 y cant yn ôl eu trefn.

**Ffigur 2.4: Cyn heddiw, a ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn?** [a] *(Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)*




Man cychwyn: 1,006 (T1 Mehefin 2012); 1,015 (T2 Mehefin 2013); 1,022 (T3 Tachwedd 2013); 1,029 (T4 Mehefin 2014); 1,002 (T5 Medi 2014); 1,003 (T6 Tachwedd 2014); 1,022 (T7 Mawrth 2015); 1,018 (T8 Mehefin 2015); 1,008 (T9 Medi 2015); 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016).

Yn nhonnau 10 ac 11, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw yn nhon 12, gyda chyfran uwch o fenywod o gymharu â gwrywod yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith (86 y cant a 79 y cant yn ôl eu trefn).


Yn nhonnau 10 ac 11, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, gyda chyfran uwch o ymatebwyr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru ac o'r Cymoedd yn dweud eu bod wedi gweld rhywbeth am y newid. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran ymwybyddiaeth gymelledig yn nhon 12.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol ac oedran ar gyfer tonnau 10, 11 a 12. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr o grŵp cymdeithasol ABC1 (83 y cant yn nhon 10; 89 y cant yn nhon 11; 89 y cant yn nhon 12) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y

newid yn y gyfraith o gymharu ag ymatebwyr o grŵp cymdeithasol C2DE (71 y cant yn nhon 10; 81 y cant yn nhon 11; 78 y cant yn nhon 12). Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson yn ôl grŵp cymdeithasol o ran ymwybyddiaeth gymelledig ers y man cychwyn, gyda'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

Fel y mae Ffigur 2.5 yn ei ddangos, yn nhonnau 10, 11 a 12, roedd rhwng 64 a 76 y cant o'r ymatebwyr wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, o gymharu â rhwng 77 ac 89 y cant o'r ymatebwyr 35 oed a throsodd. Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson yn ôl oedran o ran ymwybyddiaeth gymelledig ers y man cychwyn, gyda'r oedran iau yn llai ymwybodol o'r newidiadau yn y gyfraith.

**Ffigur 2.5: Wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran**




Man cychwyn: 1,000 (T10 T 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016)

## 3. Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau

Yn nhonnau 11 a 12, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?'

Yn nhon 11, roedd tri chwarter yr ymatebwyr (75 y cant) yn cytuno petai unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn; roedd un o bob deg (10 y cant) yn anghytuno â'r datganiad hwn, ac nid oedd 15 y cant yn cytuno nac yn anghytuno, neu nid oeddent yn gwybod.


Yn nhon 11, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 (80 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn o gymharu â'r ymatebwyr yn C2DE (72 y cant). Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran na rhanbarth.

Yn nhon 12, gostyngodd nifer y rheini a oedd yn cytuno â'r datganiad saith pwynt canran i fymryn o dan ddau o bob tri (67 y cant). Yn nhon 12 roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth. Roedd cyfran uchaf y rheini a oedd yn cytuno â'r datganiad yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (72 y cant) ac yng Ngorllewin De Cymru (72 y cant), ac roedd y gyfran isaf yn y Cymoedd (52 y cant). Yn nhon 12, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran na grŵp cymdeithasol.

# 4. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ‘A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl ichi farw?’. Fel y mae Ffigur 4.1 yn ei ddangos, roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu wedi codi i bron hanner yn ystod y 3 ton ddiwethaf (ton 10, 47 y cant; ton 11, 48 y cant; ton 12, 48 y cant).

**Ffigur 4.1: A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?**




Man cychwyn: 1,006 (T1 Mehefin 2012); 1,015 (T2 Mehefin 2013); 1,022 (T3 Tachwedd 2013); 1,029 (T4 Mehefin 2014); 1,002 (T5 Medi 2014); 1,003 (T6 Tachwedd 2014); 1,022 (T7 Mawrth 2015); 1,018 (T8 Mehefin 2015); 1,008 (T9 Medi 2015); 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016).


Yn nhonnau 10, 11 a 12, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw, oedran a grŵp cymdeithasol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod ag aelod o'u teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl iddynt farw.

Roedd cyfran sylweddol fwy o ferched (52 y cant yn nhon 10; 53 y cant yn nhon 11; 55 y cant yn nhon 12) o gymharu â dynion (43 y cant yn nhon 10; 43 y cant yn nhon 11; 40 y cant yn nhon 12) wedi trafod ag aelod o'u teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau. Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson yn ôl rhyw o ran trafod dymuniadau ers y man cychwyn, gyda dynion yn llai tebygol o drafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu.

Fel y mae Ffigur 4.2 yn ei ddangos, y rheini rhwng 35 a 54 oed a oedd yn fwyaf tebygol o drafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, gyda rhwng 50 a 55 y cant wedi gwneud hynny.

Bu gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol ar draws y mwyafrif o'r tonnau, gyda'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai tebygol o drafod eu dymuniadau.

**Ffigur 4.2: A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl ichi farw?**




Man cychwyn: 1,000 (T10 Tachwedd 2015); 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016).

Roedd cyfran sylweddol fwy o'r ymatebwyr o grŵp cymdeithasol ABC1 (57 y cant yn nhon 10; 58 y cant yn nhon 11; 52 y cant yn nhon 12) o gymharu â grŵp cymdeithasol C2DE (41 y cant yn nhon 10; 42 y cant yn nhon 11; 45 y cant yn nhon 12) wedi trafod ag aelod o'u teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau. Bu gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ar draws y mwyafrif o donnau, gyda'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai tebygol o drafod eu dymuniadau.

# 5. Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau

## 5.1 Ymddygiad ers cyflwyno'r system newydd o roi organau

Yn nhonnau 11 a 12, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud?'

Dywedodd wyth o bob deg yn nhon 11 (80 y cant), ac ychydig dros saith o bob deg yn nhon 12 (72 y cant) eu bod wedi optio i mewn, neu nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau; dywedodd tua un o bob ugain (6 y cant yn nhon 11; 5 y cant yn nhon 12) eu bod wedi optio allan, a dywedodd 14 y cant yn nhon 11 a 2 y cant yn nhon 12 nad oeddent yn gwybod, neu nad oeddent wedi meddwl am y peth eto.

Yn nhon 11, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw o ran yr hyn yr oedd yr ymatebwyr wedi'i wneud. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, grŵp cymdeithasol ac oedran. Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr a oedd wedi optio i mewn neu nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (85 y cant), ac roedd y gyfran isaf yng Ngorllewin De Cymru (71 y cant).


Roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 wedi optio i mewn, neu heb wneud dim (85 y cant) o gymharu ag ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithason C2DE (77 y cant). Roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol C2DE heb feddwl am y peth eto, neu ddim yn gwybod beth oedd eu penderfyniad (17 y cant) o gymharu â'r rheini yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 (10 y cant).

Fel y mae Ffigur 5.1 yn ei ddangos, roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr 16 i 34 oed heb feddwl am eu penderfyniad neu ddim yn gwybod (20 y cant), o gymharu â'r ymatebwyr 35 i 54 oed (11 y cant) a'r rheini a oedd yn 55 oed a throsodd (13 y cant).

Roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr 35 i 54 oed wedi optio i mewn, neu heb gymryd camau (86 y cant), o gymharu ag ymatebwyr 16 i 34 oed (77 y cant) ac ymatebwyr 55 oed a throsodd (78 y cant).

Roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr 55 oed a throsodd wedi optio allan (9 y cant) o gymharu ag ymatebwyr 16 i 34 oed (3 y cant) ac ymatebwyr 35 i 54 oed.

**Ffigur 5.1: Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud?**




Man cychwyn: 1,007 (T11 Mawrth 2016).

Yn nhon 12, nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw nac oedran o ran yr hyn y mae'r ymatebwyr wedi'i wneud ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno, ond roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol. Roedd cyfran uchaf yr ymatebwyr a oedd wedi optio i mewn neu nad oeddent wedi cymryd camau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (81 y cant), ac roedd y gyfran isaf yn y Cymoedd (66 y cant).

Roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 wedi optio i mewn neu heb gwneud dim (77 y cant) o gymharu ag ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol C2DE (69 y cant). Roedd yn fwy tebygol bod ymatebwyr yng ngrŵp cymdeithasol C2DEheb feddwl am y peth eto, neu ddim yn gwybod beth oedd eu penderfyniad (26 y cant) o gymharu â'r rheini yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 (18 y cant).

## 5.2 Trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu


Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer optio i mewn neu heb gymryd camau, neu a oedd wedi optio allan, 'A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich penderfyniad o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?'. Yn nhon 11 a thon 12, roedd tua chwech o bob deg (58 y cant yn nhon 11; 62 y cant yn nhon 12) wedi trafod y penderfyniad hwn ag aelod o'r teulu, ac roedd bron pedwar o bob deg (42 y cant yn nhon 11; 38 y cant yn nhon 12) heb wneud hynny.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw ac oedran yn nhonnau 11 a 12. Roedd cyfran sylweddol fwy o ferched (64 y cant yn nhon 11; 67 y cant yn nhon 12) o gymharu â dynion (52 y cant yn nhon 11; 57 y cant yn nhon 12) wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu.

Fel y mae Ffigur 5.2 yn ei ddangos, yn nhonnau 11 a 12 roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu ar ei hisaf ymhlith ymatebwyr 16 i 34 oed (49 y cant yn nhon 11; 58 y cant yn nhon 12), ac roedd ar ei huchaf ymhlith ymatebwyr 35 i 54 oed (62 y cant yn nhon 11; 68 y cant yn nhon 12).

Yn nhon 11, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol, gyda'r rheini yng Ngogledd Cymru (66 y cant) a'r rheini yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 (66 y cant) yn fwyaf tebygol o fod wedi trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth na grŵp cymdeithasol yn nhon 12.

**Ffigur 5.2. A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich penderfyniad o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?**




Man cychwyn: 1,007 (T11 Mawrth 2016); 1,011 (T12 Mehefin 2016)


## 6. Yr ymgyrch ‘Nawr yw'r Amser i Ddewis’

Yn nhon 10, gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, ‘A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebion neu wybodaeth am y gyfraith newydd ar gyfer rhoi organau yng Nghymru?’.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld neu glywed hysbysebion yr ymgyrch ‘Nawr yw'r Amser i Ddewis’ ynghylch rhoi organau yn 56 y cant.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran. Fel y mae Ffigur 6.1 yn ei ddangos, roedd tua hanner yr ymatebwyr (49 y cant) dan 35 oed wedi gweld hysbysebion yr ymgyrch, o gymharu â thua thri o bob deg ymatebydd 35-54 oed (56 y cant) a 55 oed a throsodd (60 y cant).

**Ffigur 6.1: Ymwybyddiaeth o hysbysebion neu wybodaeth am yr ymgyrch ‘Nawr yw'r Amser i Ddewis’**




Man cychwyn: 1,000 (T10 Tachwedd 2015).

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol. Yn nhon 10, yng Ngogledd Cymru yr oedd cyfran uchaf yr ymatebwyr (64 y cant) a oedd wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebion neu wybodaeth am y gyfraith newydd ar gyfer rhoi organau yng Nghymru, o gymharu â'r gyfran isaf (44 y cant) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd cyfran sylweddol uwch o ymatebwyr o grŵp cymdeithasol ABC1 (61 y cant), o gymharu â grŵp cymdeithasol C2DE (52 y cant), wedi gweld neu glywed hysbysebion neu wybodaeth am y gyfraith newydd ar gyfer rhoi organau yng Nghymru. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl rhyw.

## Atodiad A: Methodoleg

Cynlluniwyd Arolwg Omnibws Cymru i gynrychioli'r boblogaeth sy'n preswylio yng Nghymru ac sy'n 16 oed a throsodd. Yr uned samplu yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Is, a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru y mae eu tebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl cael eu haenu yn ôl awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

Ym mhob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwota demograffig oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw i ddewis yr ymatebwyr. Gosodir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewisir.

Mae'r data wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn y rhywiau yng ngrwpiau'r awdurdod unedol, er mwyn rhoi i bob cell ei mynychder cywir yng nghyfanswm Cymru, yn deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl ffres o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg, ac ni chyfwelir â mwy nag un unigolyn o bob cartref. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweld Personol trwy Gymorth Cyfrifiadur).

Ar gyfer ton 10, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 16 a 29 Tachwedd 2015, gydag ychydig o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn; a chynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau wyneb yn wyneb. Ar gyfer ton 11, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 1 ac 13 Mawrth 2016, gydag ychydig o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn; a chynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,007 o gyfweliadau wyneb yn wyneb. Ar gyfer ton 12, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 6 ac 19 Mehefin 2016, gydag ychydig o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn; a chynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,011 o gyfweliadau wyneb yn wyneb.

**Samplu cwota cyfraneddol**

Pan gaiff data arolwg eu profi ar gyfer arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gafwyd yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfraneddol (nid hapsamplu), ni ellir, mewn gwirionedd, canfod arwyddocâd ystadegol dilys[3]. Felly, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn wahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol lled-ystadegol ar lefel hyder o 95 y cant. Mae hyn yn golygu y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 pe byddai'r arolwg wedi defnyddio hapsampl.

**Dadansoddiad chi sgwâr**

Defnyddiwyd y prawf chi sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas a welir rhwng dau newidyn yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad dilys yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm poblogaeth yr oedolion sy'n preswylio yng Nghymru ac sydd yn 16 oed a throsodd).

[3] Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

**Codio newidynnau**

**Er mwyn cynnal dadansoddiad chi sgwâr a sicrhau bod y data wedi'u cyflwyno'n glir, cafodd y newidynnau eu codio i grwpiau cymaradwy. Amlinellir isod y cwestiynau hynny a gafodd eu codio.**

| Geiriad y cwestiwn | Ymateb | Cod a neilltuwyd |
|---|---|---|
| (Digymell) A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r system o roi organau? | Ydw | 1 – Ydw |
| | Nac ydw | 2 – Nac ydw neu ddim yn gwybod |
| | Ddim yn gwybod | 2 – Nac ydw neu ddim yn gwybod |
| (Cymelledig) A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r system o roi organau? | Ydw | 1 – Ydw |
| | Nac ydw | 2 – Nac ydw neu ddim yn gwybod |
| | Ddim yn gwybod | 2 – Nac ydw neu ddim yn gwybod |
| Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn? | Cytuno'n gryf | 1 – Cytuno |
| | Cytuno | 1 – Cytuno |
| | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 3 – Ddim yn gwybod neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
| | Anghytuno | 2 – Anghytuno |
| | Anghytuno'n gryf | 2 – Anghytuno |
| | Ddim yn gwybod | 3 – Ddim yn gwybod neu ddim yn cytuno nac yn anghytuno |
| Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud? | Wedi cofrestru i optio i mewn | 1 – Optio i mewn neu Heb gymryd camau |
| | Dim byd – yn hapus i ganiatâd tybiedig fod yn gymwys | 1 – Optio i mewn neu Heb gymryd camau |
| | Dim byd – ond yn dal i ystyried fy opsiynau | 1 – Optio i mewn neu Heb gymryd camau |
| | Wedi cofrestru i optio allan | 2 – Optio allan |
| | Dim byd – Heb feddwl am y peth eto | 3 – Ddim yn gwybod neu heb feddwl am y peth eto |
| | Ddim yn gwybod | 3 – Ddim yn gwybod neu heb feddwl am y peth eto |

## Diffinio rhanbarthau

Mae Tabl A.1 isod yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n ffurfio'r rhanbarthau a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

**Tabl A.1: Diffinio rhanbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gâr |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

**Diffinio grwpiau cymdeithasol**

Mae Tabl A.2 isod yn rhoi diffiniad o ddosbarthiadau'r grwpiau cymdeithasol a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

**Tabl A.2: Diffinio grwpiau cymdeithasol**

| **Grŵp cymdeithasol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol uwch |
| B | Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol canol |
| C1 | Goruchwyliol, clerigol a rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol iau |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw crefftus |
| D | Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr gwladol, gweithwyr achlysurol neu radd isel, di-waith â budd-daliadau yn unig |

## Meintiau is-samplau

Mae Tabl A.3 isod yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddir yn y dadansoddiad o ddata mis Tachwedd 2015, mis Mawrth 2016 a mis Mehefin 2016. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau pwysol a'r samplau amhwysol.

**Tabl A.3: Niferoedd yr is-samplau ar gyfer rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol**

| | Tachwedd 2015 | | Mawrth 2016 | | Mehefin 2016 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sampl amhwysol | Sampl pwysol | Sampl amhwysol | Sampl pwysol | Sampl amhwysol | Sampl pwysol |
| **Rhanbarth** | | | | | | |
| Gogledd Cymru | 214 | 224 | 213 | 227 | 208 | 227 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 142 | 169 | 193 | 172 | 162 | 172 |
| Bae Abertawe | 196 | 169 | 175 | 171 | 202 | 173 |
| Y Cymoedd | 170 | 174 | 185 | 176 | 174 | 177 |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | 278 | 263 | 241 | 261 | 265 | 262 |
| **Oedran** | | | | | | |
| 16 – 34 oed | 280 | 291 | 285 | 295 | 280 | 296 |
| 35 – 54 oed | 271 | 325 | 282 | 328 | 304 | 330 |
| 55+ oed | 444 | 379 | 439 | 383 | 462 | 384 |
| **Rhyw** | | | | | | |
| Dynion | 463 | 488 | 439 | 489 | 438 | 491 |
| Merched | 537 | 512 | 568 | 518 | 573 | 520 |
| **Grŵp cymdeithasol** | | | | | | |
| ABC1 | 397 | 394 | 412 | 406 | 453 | 446 |
| C2DE | 592 | 595 | 590 | 596 | 544 | 550 |

## Atodiad B: Holiadur

## Saesneg yn unig

## Organ Donation Omnibus Questions

## Wave 10

## November 2015

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

Could you read this card please

SHOWCARD
Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any changes that will be taking place to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2a. How did you become aware of the changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV - advertising
On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine
Poster
Leaflet
Someone told me

Other, please specify

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q3. Can you tell me how you think the system will change?

OPEN ENDED

Please take a look at this card

SHOWCARD

The National Assembly for Wales has passed a law to change the organ donation procedure to a 'soft opt out' system which comes into force from December 2015. People can now formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The law

will allow family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this change?

- Yes
- No
- Don't know

Q5. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

'It's Time to Choose' campaign questions [separate part of omnibus questionnaire]
September 2015

ASK ALL

Q1. Have you seen or heard any adverts or information about the new organ donation law in Wales?

- Yes
- No
- Don't know

ASK THOSE AWARE OF ADVERTS AT Q1

Q2. Can you describe what you have seen or heard?

PROMPT: What are the main messages of the adverts?
PROMPT: Anything else?

RECORD VERBATIM

ASK THOSE AWARE OF ADVERTS AT Q1

Q3. Where did you see or hear the adverts?

DO NOT PROMPT

TV advert
TV programme
Sponsorship of TV programme

Radio advert
Radio programme

Poster - in street
Poster – on a bus / train
Poster – at a bus / train station
Poster – unspecific

Newspaper advert
Newspaper article

Magazine advert
Magazine article

Post card
Leaflet
Social media – e.g. facebook, twitter
Organ Donation Wales website
Any mention of Government website
Any other website (please specify)
Internet / website (unspecific)

Cinema advert

At an event / roadshow
Mobile Advertising Van

Someone told me about it
At work

Other (please specify)
DK

ASK ALL

SHOW INFORMATION POSTCARD

Q4. I'd like you to take a look at this information postcard. Has your household received one of these in the post or not?

- Yes
- No
- Don't know

ORDER OF Q5a/b/c TO BE ROTATED

ASK ALL

PLAY TV ADVERT

Q5a. I'd like you watch this advert. Can you tell me if you have seen this before or not?

- Yes
- No
- Don't know

ASK ALL

PLAY RADIO ADVERT

Q5b. I'd like you to listen to this advert. Have you heard this before or not?

- Yes
- No
- Don't know

ASK ALL

SHOW BUS POSTER

Q5c. I'd like you to take a look at this advert. Have you seen this before or not?

- Yes
- No
- Don't know

ASK ALL

Q6. What do you think are the main messages that the adverts and information booklet are trying to get across?

PROMPT: Anything else?
RECORD VERBATIM

ASK ALL

Q7. I'm now going to read out some statements that other people have said about the adverts and information booklet I have shown you. I'd like you to tell me to what extent you agree or disagree with each one. There are no right or wrong answers – it's just your personal opinion we are interested in.
So firstly …

ORDER OF STATEMENTS TO BE RANDOMISED BETWEEN RESPONDENTS

- They are easy to understand
- They are not aimed at people like me
- They have made me think about my own organ donation decision
- They encourage me to make a choice about my organ donation decision
- They have not encouraged me to discuss organ donation with my family

SHOW CARD
Strongly agree
Agree
Neither agree nor disagree
Disagree
Strongly disagree
Don't know

## Organ Donation Omnibus Questions

## Wave 11 and 12

**March and June 2016**

Q1. (UNPROMPTED) Are you aware of any changes that have taken place to the organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2. Can you tell me how you think the system has changed?

OPEN ENDED

**Please take a look at this card**

SHOWCARD
The Welsh Government introduced a new organ donation system on 1 December 2015. People can now formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The new system allows family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor continues.

Q3. (PROMPTED) Before today, have you seen or heard anything about this change?

- Yes
- No
- Don't know

Q4. To what extent do you agree or disagree that, if an individual chooses not to register a decision, this should be treated as a decision to be a donor which families should be encouraged to accept?

- Strongly agree
- Agree
- Neither agree nor disagree
- Disagree
- Strongly disagree
- Don't know

Q5. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q6. Since the new system of organ donation was introduced on the 1 December 2015, which of the following best describes what you have done?

01: Registered to opt in
02: Registered to opt out
03:Nothing – as happy for presumed consent to apply
04: Nothing – but still considering my options
05: Nothing – haven't thought about it yet'

ASK Q7 IF ANSWER CODES 1 OR 2 OR 3 AT Q6

Q7. Have you ever discussed that decision with a family member?

- Yes
- No